**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau i'w osod gerbron Senedd Cymru ochr yn ochr â Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026. Mae hyn yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**17 Chwefror 2026**

## 1. Diben a throsolwg

1.1. Mae Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026 (“y Gorchymyn Diwrnod Penodedig”) yn dod â Chod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 y Comisiwn Etholiadol i rym ar 18 Chwefror 2026.

1.2. Gosodwyd Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 yn y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Gwneir y Gorchymyn Diwrnod Penodedig o dan baragraff 3(7)(b) o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (“Deddf 2000”). Er nad yw'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig yn dilyn un o weithdrefnau'r Senedd, mae'n ofynnol iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru o dan adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

3.2. Lluniodd y Comisiwn Etholiadol y Cod Ymarfer drafft ac, yn unol â pharagraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000, rhoddodd arweiniad ynglŷn â'r mathau o dreuliau sy'n dod o fewn Rhan 1 o'r Atodlen honno neu nad ydynt yn dod o fewn y Rhan honno.

3.3. Gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025 a daw i rym gan y Gorchymyn Diwrnod Penodedig. Caiff y Cod Ymarfer ei ddyroddi, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(7)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 a bydd yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 3(7) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

## 4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.1. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Gorchymyn Diwrnod Penodedig. Mae hyn yn unol â'r esemptiad yn adran 3.2 o god ymarfer Gweinidogion Cymru ynghylch cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.